# Cefnogi plant i ddysgu drwy chwarae

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae. Mae'r safon yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phlant i annog cyfathrebu ac iaith yn ogystal â chwarae corfforol, creadigol a llawn dychymyg. Mae'r safon hefyd yn cynnwys annog plant i archwilio ac ymchwilio. Yn olaf, mae'r safon yn cynnwys sut mae cyfrannu at asesu gweithgareddau i blant ddysgu drwy chwarae

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. defnyddio cyfleoedd wrth chwarae i annog, cefnogi a modelu cyfathrebu
2. cefnogi plant i ddatblygu rheoleiddio emosiynol wrth chwarae
3. cyfathrebu â phlant mewn ffordd sy'n cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
4. darparu cyfarpar a deunyddiau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau chwarae a chreadigol, gan ymgorffori arferion cynaliadwy
5. cefnogi plant i ddewis y cyfarpar a'r deunyddiau sydd orau ganddynt
6. cynnig cyfleoedd i blant archwilio a chysylltu ag amgylcheddau naturiol
7. cefnogi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae distrwythur ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill
8. cefnogi plant i chwarae rolau maent yn eu gweld gartref ac yn y byd o'u cwmpas
9. annog cyfranogiad mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol
10. cefnogi plant i rannu ac arddangos eu creadigaethau mewn ffyrdd sy'n cefnogi eu dewisiadau a'u hunan-barch
11. annog a chefnogi cynnwys plant mewn chwarae corfforol
12. annog plant i gymryd rhan mewn chwarae corfforol gan ddefnyddio eu cyrff cyfan
13. rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl
14. goruchwylio chwarae gan gefnogi buddion cymryd risgiau cadarnhaol
15. cefnogi plant i ofyn cwestiynau a datblygu agwedd o ymholi agored
16. defnyddio cyfleoedd i blant gymryd eu tro neu rannu lle, ac ystyried eraill
17. cefnogi plant i ymchwilio ac archwilio adnoddau cymunedol
18. trefnu amgylcheddau lle mae plant yn rhydd ac yn ddiogel i archwilio
19. arsylwi ar blant yn dysgu drwy chwarae
20. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
21. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gwahanol fathau o chwarae
2. sut mae cefnogi creadigrwydd a chyfranogiad plant
3. sut mae chwarae, arferion a gweithgareddau yn cefnogi datblygiad sgiliau cymdeithasol a byw
4. sut mae chwarae, arferion a gweithgareddau yn cefnogi datblygiad emosiynau a rheoleiddio emosiynol
5. pwysigrwydd natur chwareus, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
6. sut mae defnyddio cerddoriaeth, symudiad, caneuon a gemau i gefnogi plant i ddysgu
7. y mathau o ddeunyddiau a chyfarpar sy'n cefnogi dysgu drwy chwarae, gan ystyried cynaliadwyedd
8. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
9. buddion chwarae corfforol ac ymarfer i bob plentyn, gan gynnwys addasiadau angenrheidiol
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
11. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol wrth gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
12. dylanwad diwylliant a chefndir ar gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
13. sut mae cefnogi cymryd risgiau cadarnhaol wrth chwarae
14. y newidiadau y gall plant fynd drwyddynt wrth chwarae
15. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
18. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
19. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae, a sut i fynd i'r afael â hyn

20. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi plant i ddysgu drwy chwarae

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi plant i ddysgu drwy chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD238 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Dysgu drwy chwarae, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |